Rhestr Gyfeirio Prawfesur Gwledig

Is-adran/Uned	Bil Cynllunio (Cymru)
Polisi/Rhaglen/Menter i'w prawfesur yn wledig	Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cynllunio (Cymru). Cwblhawyd yr Asesiad Ebrill 2015.
Enw Cyswllt Allweddol	Tîm y Bil Cynllunio

	Cwestiwn polisi	Bydd	Na fydd	Sylw
1.	**A fydd eich polisi yn effeithio ar argaeledd gwasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill yn yr ardal wledig?**	X (o dan amgylchiadau penodol – gweler y sylwadau wrth ymyl y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt isod)		
	Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn golygu y gellir defnyddio dull gweithredu cenedlaethol, strategol mewn perthynas â datblygu yng Nghymru.			Bydd hyn yn arwain at gynllun Cenedlaethol a gaiff ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn ystyried anghenion Cymru gyfan gan gynnwys ardaloedd gwledig. Bydd dull gweithredu cenedlaethol, strategol mewn perthynas â datblygu, gan gynnwys seilwaith, o fudd i Gymru gyfan gan sicrhau gwell mynediad i wasanaethau cyhoeddus a phreifat mewn ardaloedd trefol a gwledig.
	Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern. Ceir darpariaethau ar wahân a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ehangu cwmpas y darpariaethau presennol ar gyfer Byrddau Cydgynllunio i gynnwys swyddogaethau rheoli datblygu Parciau Cenedlaethol, drwy reoliadau. Ni fydd hyn yn berthnasol i swyddogaethau llunio cynlluniau mewn Parciau Cenedlaethol, y bydd awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn parhau i ymgymryd â hwy.			Gallai arwain at ad-drefnu a/neu adleoli gwasanaethau cynllunio lleol os caiff Bwrdd Cydgynllunio ei sefydlu i ddau neu fwy o ardaloedd awdurdod cynllunio lleol. Gallai hyn fod yn gymwys i ardaloedd trefol a gwledig ledled Cymru. Pe byddai Gweinidogion Cymru yn dynodi ardal ar gyfer Bwrdd Cydgynllunio sy'n cynnwys ardal Parc Cenedlaethol, yna byddai penderfyniadau cynllunio yn yr ardaloedd hyn yn gyson â phenderfyniadau yn yr ardaloedd eraill, gan ganiatáu cysondeb ac arbedion effeithlonrwydd mewn amgylcheddau gwledig a threfol.
	Gwasanaethau Cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w darparu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) neu Weinidogion Cymru).			Bydd yn gwella safon y gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan awdurdodau cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru ar gyfer ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol.
	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).			Daw canoli gwasanaethau sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath o dan y categori ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol'; fodd bynnag diben hyn yw darparu gwasanaeth cynllunio mwy effeithlon i bobl leol wrth benderfynu ar y mathau hyn o geisiadau cynllunio. Mae'n gymwys ledled Cymru mewn lleoliadau trefol a gwledig.
	Dewisiadau i'r ymgeisydd wneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i'r ACLl (os yw'r ACLl wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			Bydd yn arwain at roi dewis i ymgeiswyr ynghyd â mynediad at wasanaeth ceisiadau cynllunio lleol effeithlon drwy ba fodd bynnag (h.y. gallai ymgeiswyr wneud eu ceisiadau i Weinidogion Cymru os tybir nad yw ACLl yn perfformio). Mae'n gymwys i ardaloedd trefol a gwledig. Felly dylai arwain at wasanaethau ceisiadau cynllunio lleol o safon uwch mewn ardaloedd gwledig os nad yw'r gwasanaethau presennol yn gweithredu fel y dylent ei wneud.

	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol a dosbarthiadau / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu. Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur. Opsiwn i gyflwyno ceisiadau cysylltiedig i Weinidogion Cymru - Bydd yn cyflwyno darpariaethau i sicrhau y gellir ystyried cynigion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cynllunio hynny am ddatblygiadau y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r prif geisiadau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i llunio'n benodol ar gyfer ceisiadau cynllunio a gaiff eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' arfaethedig.			Gallai hyn arwain o bosibl at ganiatáu i rai dosbarthiadau o ddatblygiad gael eu penderfynu gan gorff heblaw am yr awdurdod cynllunio lleol – er enghraifft, Gweinidogion Cymru yn achos Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Dylai hyn arwain at sefyllfa lle mae'r ceisiadau mwyaf cymhleth a dadleuol o bosibl yn cael eu penderfynu gan gyrff ac eithrio'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl), gan ryddhau adnoddau gwasanaeth yr ACLl i ddefnyddwyr lleol mewn ardaloedd gwledig a threfol. Darpariaeth ychwanegol, gan ei gwneud yn bosibl i ymgeiswyr apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol yn ystod cam o'r broses cais cynllunio. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn effeithio ar argaeledd gwasanaethau cynllunio lleol presennol. Cynnig opsiwn ychwanegol i alluogi'r ymgeisydd i gyflwyno cynigion sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru; Ni fydd yn arwain at golli gwasanaethau gwledig.
2.	**A allech chi gyflawni'r polisi y bwriedwch ei gyflawni drwy'r allfeydd gwasanaeth presennol? E.e. ysgolion, banciau a meddygfeydd.**	X (caiff y cynigion eu rhoi ar waith gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru – nid oes unrhyw effeithiau penodol ar leoliadau gwledig).		DD/G
3.	**A fydd cyflenwi eich polisi chi yn achosi cost ychwanegol i ardaloedd gwledig?** Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).	X (gall hyn ddigwydd fel rhan o'r broses o gyflwyno ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r awdurdod cynllunio lleol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer y math hwn o geisiadau).		Gallai hyn arwain o bosibl at sefyllfa lle y bydd nifer fach o ymgeiswyr mewn ardaloedd gwledig yn gorfod teithio ymhellach i gyflwyno ceisiadau cynllunio, ond dylai hyn gael ei wrthbwyso gan wasanaeth mwy effeithlon wrth benderfynu ar y math hwn o geisiadau. Gallai hyn fod yn gymwys i ardaloedd gwledig a rhai ardaloedd trefol fel ei gilydd. At hynny, mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithdrefnau ar ffurf polisi a chanllawiau; bydd y rhain yn sicrhau bod mesurau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud eu ceisiadau i Weinidogion Cymru o dan y broses benodol hon yn briodol. Mae'r nifer fach o fathau o geisiadau y rhagwelir y cânt eu penderfynu o dan weithdrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol hefyd yn golygu bod y darpariaethau hyn yn annhebygol o esgor ar oblygiadau o ran cost i ardaloedd gwledig.
4.	**A fydd y polisi'n effeithio ar anghenion teithio neu hwylustod a chost teithio ar gyfer cymunedau gwledig?**	X (fel uchod, gall hyn ddigwydd fel		

	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).	rhan o'r broses o gyflwyno ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r awdurdod cynllunio lleol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer y mathau hyn o geisiadau)		Gallai arwain at fwy o daith i nifer fach o ymgeiswyr mewn lleoliadau gwledig er mwyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol; fodd bynnag, mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau dulliau cyflwyno priodol. At hynny, dylai'r effaith bosibl hon gael ei gwrthsefyll drwy wasanaeth mwy effeithlon wrth benderfynu ar y mathau hyn o geisiadau. Mae'r nifer fach o fathau o geisiadau y rhagwelir y cânt eu penderfynu o dan weithdrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol hefyd yn golygu bod y darpariaethau hyn yn annhebygol o esgor ar oblygiadau o ran cost i ardaloedd gwledig.
5.	**A yw'r polisi yn dibynnu ar gyfleu gwybodaeth i gleientiaid?** Newidiadau i'r system cynllun datblygu drwy gyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol ac addasiadau i'r system CDLl. Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio). Gwasanaethau Cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w darparu gan ACLl neu Weinidogion Cymru). Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais). Dewis i ymgeiswyr wneud ceisiadau'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach	X		Bydd yr addasiadau i'r system cynlluniau datblygu yn dibynnu ar gyfleu gwybodaeth i gleientiaid mewn perthynas ag ymgynghori a hysbysu ynghylch y gwahanol gamau o lunio cynllun (e.e. hysbysu ar y camau o lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol). Gallai hyn fod yn gymwys i ardaloedd trefol a gwledig ledled Cymru fel ei gilydd. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda'r cymunedau lle y cynigir y datblygiadau ar gyfer cynigion am ddatblygiadau mawr. Bydd effaith gadarnhaol ar bob cymuned yng Nghymru, gyda threfniadau ymgysylltu cynnar cyn y caiff ceisiadau cynllunio eu cyflwyno i'r ACLl neu Weinidogion Cymru. Awgrymwyd gan randdeiliaid y gallai cynnwys adeiladau amaethyddol 1000 o fetrau sgwâr neu fwy o fewn y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gael effaith negyddol ar fusnesau gwledig o ran costau. Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod 1000 o fetrau sgwâr yn drothwy priodol ond byddem yn ailystyried hyn o ystyried unrhyw dystiolaeth newydd fel rhan o'r pecyn is-ddeddfwriaeth sy'n ategu'r Bil. Bydd yn ofynnol i ACLlau a Gweinidogion Cymru ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio ledled Cymru. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu drwy ACLlau a Llywodraeth Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran cyfleu gwybodaeth ynghylch sut i gyflwyno cais cynllunio. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr lunio adroddiad ar yr effaith leol. Bydd hyn o fudd i bob cymuned yng Nghymru, heb unrhyw effaith benodol ar gymunedau gwledig. Y darpariaethau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, ond cânt eu darparu drwy ACLlau a Llywodraeth Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran cyfleu gwybodaeth ynghylch sut i gyflwyno cais cynllunio. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth. Lle y dynodwyd ACLl fel awdurdod â lefelau perfformiad gwael, bydd ymgeiswyr yn gallu

	nag i'r ACLl (os yw'r ACLl wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			gwneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Bydd hyn o fudd i bob cymuned yng Nghymru oherwydd bwriedir i hyn wella safon gwasanaethau cynllunio ledled Cymru. Bydd gwybodaeth am sut i gyflwyno cais cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru ar gael yn helaeth. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth.
	Ffurf hysbysiadau penderfynu a'r modd y'u cyflwynir (gan gynnwys gofyn am i gynlluniau neu ddogfennau eraill mewn perthynas â'r datblygiad gael eu nodi ar yr hysbysiad penderfynu) a hysbysu am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiadau.			Bydd yn rhaid i'r corff sy'n penderfynu ar gais cynllunio (e.e. ACLl) gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad a hysbysiad dechrau datblygu ac arddangos yr hysbysiadau hynny, darparu data cyfredol ar ganiatadau cynllunio ar hysbysiadau o benderfyniadau er mwyn hysbysu partïon â diddordeb am wybodaeth berthnasol am ganiatadau cynllunio ar gyfer safle datblygu. Bydd y wybodaeth hon ar gael yn hawdd i bawb, gan gynnwys y cymunedau lleol yr effeithir arnynt gan ddatblygiad. Mae hyn yn gymwys i bob ardal, nid dim ond ardaloedd gwledig.
	Gofyniad ar ymgyngoreion statudol i roi 'ymateb o sylwedd' ar gais am ddatblygiad.			Bydd yn ofynnol i Ymgyngoreion Statudol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, ddarparu ymateb o sylwedd i gais cynllunio o fewn amserlen benodedig. Bydd hyn yn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn gyson ac mewn modd amserol ac y caiff safbwyntiau ymgyngoreion statudol eu hystyried ym mhob cais cynllunio perthnasol. Bydd effaith gadarnhaol ar gyfer Cymru gyfan, heb unrhyw effaith benodol ar leoliadau gwledig.
	Atal neu ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus a phriffyrdd.			Darpariaethau technegol ynglŷn â newidiadau ac ychwanegiadau i'r weithdrefn ar gyfer atal neu ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus a phriffyrdd mewn perthynas â chyflwyno cais cynllunio. Nid ystyrir y bydd y darpariaethau yn cael effaith uniongyrchol ar leoliadau gwledig, ond cânt eu cyfleu i leoliadau gwledig drwy Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol.
	Apeliadau – dim amrywio ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad am apêl na chodi materion newydd wrth apelio a dyfarnu costau.			Mater o broses – caiff ei gynnal drwy'r Arolygiaeth Gynllunio fel sy'n digwydd ar hyn o bryd i weinyddu apeliadau. Hefyd, ni fydd y ddarpariaeth yn gymwys i ardaloedd gwledig yn unig.
	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd a dosbarthiadau gwahanol / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu.			Byddai'n ofynnol i'r ACLl perthnasol neu Lywodraeth Cymru gyfleu gwybodaeth am gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad lle mae darpariaethau gwahanol yn bodoli. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth.
	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Bydd hyn yn sicrhau cyfle cyfartal i'r rheini sy'n cyflwyno cais cynllunio i apêl lle bydd ACLl yn hysbysu'r ymgeisydd nad yw'r cais yn ddilys. Caiff y gweithgaredd hwn ei gynnal drwy'r ACLl perthnasol a Llywodraeth Cymru neu'r Arolygiaeth Gynllunio (ar gyfer y weithdrefn apelio) fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran cyfleu gwybodaeth am gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth.
	Meysydd Trefi a Phentrefi - Gwahardd ceisiadau rhag cael eu gwneud i gofrestru tir fel maes tref neu bentref lle y rhoddir caniatâd			Gellid ystyried y byddai'r cyfyngiad ar allu cymunedau i gofrestru tir fel maes tref neu bentref unwaith y rhoddir caniatâd cynllunio fel

	cynllunio, y mabwysiedir gorchymyn datblygu lleol gan yr awdurdod cynllunio lleol neu y gwneir gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Hefyd, darpariaethau i ganiatáu i dirfeddianwyr gyflwyno datganiadau i'r awdurdod cofrestru tir comin yn datgan y gellir defnyddio tir at ddibenion hamdden ond bydd hyn wedyn yn golygu y caiff y tir ei eithrio rhag gallu ei gofrestru fel maes tref neu bentref yn y dyfodol, ar yr amod y bodlonir meini prawf penodol.			rhywbeth sy'n cael effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol ar bob cymuned. Fodd bynnag, bydd y gwasanaethau cyn ymgeisio a'r gofynion i ddatblygwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i gymunedau ymgysylltu â datblygiadau yn ystod cam cynnar ac mae'n darparu digon o amser i gyflwyno cais am statws maes tref neu bentref cyn y rhoddir caniatâd cynllunio. Gallai'r gallu i dirfeddianwyr gofrestru tir at ddefnydd hamdden gael effaith ledled Cymru, gan olygu y gallai mwy o dir fod ar gael at ddefnydd hamdden ond gan ddarparu sicrwydd ychwanegol i dirfeddianwyr bod eu tir wedi'i ddiogelu rhag cais am statws maes tref neu bentref.
	Pwyllgorau Cynllunio, rôl Aelodau a dirprwyo - Cyflwyno cynllun cenedlaethol o ddirprwyo i swyddogion benderfynu ar geisiadau cynllunio a rhagnodi'r maint a'r cyfansoddiad y dylai Pwyllgorau ACLlau weithredu yn unol â hwy.			Caiff newidiadau i aelodaeth pwyllgorau cynllunio eu gweithredu drwy weithdrefnau llywodraeth leol. Ni fyddant yn effeithio ar gyfleu gwybodaeth i gleientiaid mewn lleoliadau gwledig.
	Darpariaethau gorfodi - gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon a sicrhau bod y broses orfodi yn fwy eglur. Mae newidiadau yn cynnwys galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiadau rhybuddio ynghylch gorfodi.			Caiff gweithgareddau gorfodi eu cynnal drwy'r ACLl perthnasol a Llywodraeth Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran cyfleu gwybodaeth am gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth.
	Opsiwn i gyflwyno ceisiadau cysylltiedig i Weinidogion Cymru - Bydd yn cyflwyno darpariaethau i sicrhau y gellir ystyried cynigion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cynllunio hynny am ddatblygiadau y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r prif geisiadau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i llunio'n benodol ar gyfer ceisiadau cynllunio a gaiff eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' arfaethedig.			Bydd yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol a Llywodraeth Cymru yn cyfleu gwybodaeth am y broses ceisiadau cynllunio ar gyfer ceisiadau cysylltiedig. Dim effaith benodol ar leoliadau gwledig yn hyn o beth.
	Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern, ac eithrio ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Ceir pŵer ar wahân, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ehangu'r darpariaethau presennol er mwyn galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.			Os caiff y darpariaethau ar gyfer Byrddau Cydgynllunio eu deddfu yn y dyfodol, caiff gwybodaeth ei chyfleu drwy'r APC, ACLlau cysylltiedig a Llywodraeth Cymru.
6.	**A fydd y polisi'n cael ei gyflawni naill ai drwy'r sector preifat neu drwy bartneriaeth gyhoeddus-preifat?**	X (mwy o ran ymwneud y sector preifat ag achosion penodol wrth weithredu'r cynigion, yn hytrach na'r rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith mewn gwirionedd – gweler y sylwadau)		
	Paratoi ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru.			Dylai fod modd i'r sector preifat wneud sylwadau ar unrhyw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol arfaethedig - gan gynnwys sefydliadau yn y sector preifat mewn ardaloedd gwledig. Dim effaith benodol yma.
	Dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol at ddibenion llunio cynlluniau datblygu strategol (CDSau) ar gyfer ardaloedd penodol.			Bydd yn ofynnol i draean o'r paneli cynllunio strategol fod yn aelodau enwebedig. Bydd yr aelodau hyn yn dod o gyrff cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys y rheini o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd y sector preifat yn gallu gwneud sylwadau ar unrhyw Gynllun Datblygu

	Hysbysu am ddechrau datblygiad ac arddangos yr hysbysiad. Gofyniad ar ymgyngoreion statudol i roi 'ymateb o sylwedd' ar gais am ddatblygiad. Meysydd Trefi a Phentrefi - Gwahardd ceisiadau rhag cael eu gwneud i gofrestru tir fel maes tref neu bentref lle y rhoddir caniatâd cynllunio, y mabwysiedir gorchymyn datblygu lleol gan yr awdurdod cynllunio lleol neu y gwneir gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Hefyd, darpariaethau sy'n caniatáu i dirfeddianwyr gyflwyno datganiadau i'r awdurdod cofrestru tir comin yn datgan y gellir defnyddio tir at ddibenion hamdden ond bydd hyn wedyn yn golygu y caiff y tir ei eithrio rhag gallu ei gofrestru fel maes tref neu bentref yn y dyfodol, ar yr amod y bodlonir meini prawf penodol.			Strategol arfaethedig - gan gynnwys sefydliadau yn y sector preifat mewn ardaloedd gwledig. Mater o broses o ran cynigion ar gyfer datblygiadau newydd sy'n cael eu hadeiladu lle y bydd yn rhaid i rai datblygwyr yn y sector preifat fodloni'r gofynion hyn o bosibl. Mater o broses yw hyn ac ymdrinnir ag ef gan ymgyngoreion statudol o'r sector preifat, megis Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth, byddai'n rhaid cydymffurfio â'r gofynion i ddarparu 'ymateb o sylwedd' o fewn amserlen benodedig. Gallai'r gallu i dirfeddianwyr gofrestru tir at ddefnydd hamdden gael effaith ar y sector preifat ledled Cymru, gan olygu y gallai mwy o dir fod ar gael at ddefnydd hamdden i gymunedau, ond gan ddarparu sicrwydd ychwanegol i dirfeddianwyr bod eu tir wedi'i ddiogelu rhag cais am statws maes tref neu bentref.
7.	**A yw'r polisi yn dibynnu ar seilwaith i'w gyflawni, a allai olygu y bydd cymunedau gwledig dan anfantais? E.e. TGCh band eang, priffyrdd a chyfleustodau** Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLI i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais). *Er nad yw wedi'i gynnwys fel darpariaeth deddfwriaeth sylfaenol, mewn ymgynghoriad ynglŷn â dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol codwyd pryderon gyda'n Hadran Amaethyddol. Roedd cydweithwyr yn yr Adran Amaethyddol o'r farn nad oes gan lawer o bobl mewn lleoliadau gwledig fynediad i'r rhyngrwyd a'u bod yn cyfeirio at eu papur newydd lleol er mwyn cael gwybod beth sy'n digwydd yn eu hardal o ran cynllunio.*	X (gweler y sylwadau – ystyriwyd bod modd lliniaru hyn).		Efallai bod mynediad at wasanaeth canolog er mwyn cyflwyno ceisiadau cynllunio i Weinidogion Cymru yn achosi problem i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig mewn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau dulliau cyflwyno priodol. At hynny, dylai'r effaith bosibl hon gael ei gwrthbwyso drwy ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ar gyfer penderfynu ar y mathau hyn o geisiadau.
8.	**A fydd y polisi yn effeithio ar fusnesau gwledig, sef yr hunangyflogedig a microfusnesau yn benodol ac ar y Trydydd Sector gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chyrff gwirfoddol lleol?** Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern, ac eithrio ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Ceir pŵer ar wahân, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ehangu'r darpariaethau presennol er mwyn galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio).	X		Mae byrddau cydgynllunio yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fusnesau gwledig a'r trydydd sector gan y bydd y darpariaethau hyn yn helpu i ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol effeithlon, cyson ac effeithiol. Byddai gofyniad i bob busnes, gan gynnwys busnesau gwledig, unigolion hunangyflogedig a

				microfusnesau gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer **datblygiad sylweddol**. Yn y bôn mae'n golygu dechrau dwys i'r broses gwneud cais cynllunio a fydd yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn sicrhau y cynhelir ymgynghoriad â chymunedau gwledig ynglŷn â chynigion datblygu ar y cam cynharaf posibl. Fodd bynnag, awgrymwyd gan randdeiliaid y gallai cynnwys adeiladau amaethyddol 1000 o fetrau sgwâr neu fwy o fewn y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gael effaith negyddol ar fusnesau gwledig o ran costau. Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod 1000 o fetrau sgwâr yn drothwy priodol ond byddem yn ailystyried hyn o ystyried unrhyw dystiolaeth newydd fel rhan o'r pecyn is-ddeddfwriaeth sy'n ategu'r Bil.
	Gwasanaethau Cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w darparu gan ACLl neu Weinidogion Cymru)			Bydd gan fusnesau gwledig a'r trydydd sector yr un gallu i gael cyngor cyn ymgeisio ar gynnig cyn iddo gael ei gyflwyno. Mae hwn yn wasanaeth ychwanegol a gaiff ei ddarparu i bawb sy'n cynnig datblygiad newydd.
	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais.			Bydd yn arwain at ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau i'w penderfynu o dan weithdrefn 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Mae'n gymwys i bob cais a gyflwynir o dan y broses hon, gan gynnwys i fusnesau gwledig a'r trydydd sector sy'n ystyried cyflwyno ceisiadau cynllunio am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol
	Dewis i'r ymgeisydd wneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i'r ACLl (os yw'r ACLl wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			Dylai arwain at ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol mwy effeithlon i gymunedau; bydd hyn yn cynnwys busnesau gwledig a'r trydydd sector.
	Ffurf ar hysbysiadau penderfynu a'r modd y'u cyflwynir (gan gynnwys gofyn am i gynlluniau neu ddogfennau eraill mewn perthynas â'r datblygiad gael eu nodi ar yr hysbysiad penderfynu).			Bydd yn ei gwneud yn haws i gymunedau, gan gynnwys busnesau gwledig a'r trydydd sector, nodi cynlluniau a dogfennau sy'n gysylltiedig â'r caniatadau cynllunio mwyaf cyfredol.
	Hysbysu am ddechrau datblygiad ac arddangos yr hysbysiad.			Gofynion ychwanegol y bydd yn rhaid i bob ymgeisydd eu bodloni o ran rhoi cyhoeddusrwydd i ganiatadau cynllunio; bydd hyn yn cynnwys busnesau gwledig / ymgeiswyr yn y trydydd sector wrth gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd.
	Apeliadau – dim amrywio ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad am apêl na chodi materion newydd wrth apelio a dyfarnu costau.			Dylai'r cynigion arwain at sefyllfa lle y caiff apeliadau eu penderfynu'n fwy amserol, sef effaith gadarnhaol o bosibl o ran galluogi cyfleoedd datblygu i fusnesau gwledig a'r trydydd sector y tybir eu bod yn dderbyniol drwy'r broses Apeliadau.
	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol a dosbarthiadau / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu.			Bydd yn darparu ar gyfer gweithredu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan wella effeithlonrwydd. Felly dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar fusnesau gwledig / y trydydd sector drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ceisiadau cynllunio o bosibl.

	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Bydd yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad gan ACLl i beidio â chofrestru cais cynllunio gan fod yr ACLl o'r farn nad yw'r cais yn ddilys. Dylai arwain at system decach o gofrestru cais cynllunio, gan esgor ar fanteision cadarnhaol i ymgeiswyr gan gynnwys busnesau gwledig a'r trydydd sector.
	Pwyllgorau Cynllunio, rôl Aelodau a dirprwyo - cyflwyno cynllun cenedlaethol o ddirprwyo i swyddogion benderfynu ar geisiadau cynllunio a rhagnodi'r maint a'r cyfansoddiad y dylai Pwyllgorau ACLlau weithredu yn unol â hwy.			Dim effaith uniongyrchol - newidiadau i weithdrefn pwyllgorau cynllunio.
	Darpariaethau gorfodi - gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon a sicrhau bod y broses orfodi yn fwy eglur. Mae newidiadau yn cynnwys galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiadau rhybuddio ynghylch gorfodi.			Bydd yn helpu i sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio. Fodd bynnag, ni fydd yr effaith yn benodol ar ardaloedd gwledig a bydd yn esgor ar fuddiannau cadarnhaol o ran rheoli datblygu drwy'r system gynllunio i Gymru gyfan.
	Opsiwn i gyflwyno ceisiadau cysylltiedig i Weinidogion Cymru - Bydd yn cyflwyno darpariaethau i sicrhau y gellir ystyried cynigion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cynllunio hynny am ddatblygiadau y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r prif geisiadau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i llunio'n benodol ar gyfer ceisiadau cynllunio a gaiff eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' arfaethedig.			Bydd caniatáu i'r ceisiadau hynny sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru hefyd gael eu penderfynu ochr yn ochr â'r prif gynnig yn arwain at wasanaeth mwy cynhwysfawr ar gyfer ystyried cynigion datblygu, a fydd o fudd i ymgeiswyr. Mae'n gymwys i bawb, gan gynnwys ardaloedd gwledig.
9.	**A fydd y polisi yn cael effaith benodol ar ddiwydiannau sy'n seiliedig ar y tir, ac felly ar economïau gwledig a'r amgylchedd?**	X		
	Paratoi ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru.			Byddai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi cyfleusterau seilwaith o bwys cenedlaethol, y bydd rhai ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig o bosibl.
	Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern, ac eithrio ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Ceir pŵer ar wahân, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ehangu'r darpariaethau presennol er mwyn galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.			Cynlluniwyd y darpariaethau ar gyfer Byrddau Cydgynllunio yn y Bil er mwyn darparu adnodd i sicrhau gwasanaethau cynllunio effeithlon a chadarn ledled Cymru. Dylai hyn arwain at effaith gadarnhaol ar economïau gwledig a'r amgylchedd drwy ei gwneud yn bosibl i gyfleoedd datblygu priodol gael eu hystyried drwy'r broses gynllunio.
	Dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol at ddibenion llunio cynlluniau datblygu strategol (CDSau) ar gyfer ardaloedd penodol.			Gallai unrhyw Gynllun Datblygu Strategol a baratoir ar gyfer ardaloedd sy'n wledig nodi materion cynllunio gwledig strategol. Fodd bynnag, y tebyg yw y caiff Cynlluniau Datblygu Strategol eu paratoi ar gyfer ardaloedd trefol. Hefyd, lleiniau glas, sydd fwyaf tebygol o wneud cais yma o ran effaith ar ardaloedd gwledig.
	Darpariaethau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) (h.y. parhad CDLlau, tynnu CDLl yn ôl a chyfarwyddyd i baratoi CDLlau ar y cyd).			Gallai'r cynnig arwain at nodi polisïau gwledig lleol o fewn unrhyw CDLl ar y cyd sy'n cael ei orfodi gan Weinidogion Cymru ar gyfer ardal benodol. At hynny, gallai gorfodi dyddiad terfynu ar gyfer CDLlau arwain at sefyllfa lle nad oes gan rai ACLlau (gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig) CDLl ar waith - fodd bynnag, nod y ddarpariaeth hon yw annog ACLlau i sicrhau bod

				eu cynlluniau'n gyfredol, a fydd yn rhoi sicrwydd i ddiwydiant, gan gynnwys diwydiant mewn lleoliadau gwledig.
	Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio).			Yn y bôn, mae'r gofyniad i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer datblygiad mawr cyn cyflwyno cais cynllunio yn golygu dechrau dwys i'r broses gwneud cais cynllunio a fydd yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn sicrhau y cynhelir ymgynghoriad â chymunedau gwledig lleol ynglŷn â datblygiadau arfaethedig ar y cam cynharaf oll. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i bob cais ar gyfer datblygiad sylweddol ac nid dim ond i'r cynigion hynny ar gyfer datblygiad sylweddol sydd mewn lleoliadau gwledig. Er gwaethaf hyn, awgrymwyd gan randdeiliaid y gallai cynnwys adeiladau amaethyddol 1000 o fetrau sgwâr neu fwy o fewn y gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gael effaith negyddol ar fusnesau gwledig o ran costau. Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod 1000 o fetrau sgwâr yn drothwy priodol ond byddem yn ailystyried hyn o ystyried unrhyw dystiolaeth newydd fel rhan o'r pecyn is-ddeddfwriaeth sy'n ategu'r Bil.
	Gwasanaethau Cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w darparu gan ACLl neu Weinidogion Cymru).			Bydd y gallu i ddiwydiannau'r tir gael cyngor cyn ymgeisio ynglŷn â chynnig datblygu cyn cyflwyno cais cynllunio o fudd i bob ardal. Mae hwn yn wasanaeth ychwanegol a gaiff ei ddarparu i bawb sy'n cynnig datblygiad newydd ac felly nid dim ond ar yr ymgeiswyr hynny sy'n gweithredu yn yr economi a'r amgylchedd gwledig y bydd yn effeithio.
	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).			Bydd yn arwain at ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon i ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio i'w penderfynu o dan weithdrefn 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Caiff y gwasanaeth effeithlon hwn ei ddarparu i bawb, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yn yr economi a'r amgylchedd gwledig.
	Dewisiadau i ymgeiswyr wneud ceisiadau'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i'r ACLl (os yw'r ACLl wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			Dylai arwain at ddarparu gwasanaeth cynllunio lleol mwy effeithlon yng Nghymru lle yr ystyrir bod angen cymhwyso'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys at y diwydiannau hynny sy'n gweithio yn yr economi a'r amgylchedd gwledig.
	Ffurf ar hysbysiadau penderfynu a'r modd y'u cyflwynir (gan gynnwys gofyn am i gynlluniau neu ddogfennau eraill mewn perthynas â'r datblygiad gael eu nodi ar yr hysbysiad penderfynu).			Bydd yn ei gwneud yn haws i'r rhai sydd â diddordeb mewn cynigion datblygu, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn yr economi a'r amgylchedd gwledig nodi cynlluniau a dogfennau sy'n gysylltiedig â'r caniatadau cynllunio mwyaf cyfredol.
	Apeliadau – dim amrywio ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad am apêl na chodi materion newydd wrth apelio a dyfarnu costau.			Dylai cynigion arwain at broses fwy amserol a thryloyw o benderfynu ar apeliadau. Mae hyn yn effaith gadarnhaol o bosibl i'r economi a'r amgylchedd gwledig gan y gallai helpu i alluogi cyfleoedd datblygu priodol i leoliadau gwledig drwy'r broses apeliadau cynllunio.
	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol a dosbarthiadau / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu.			Bydd yn darparu ar gyfer gweithredu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan wella effeithlonrwydd. Felly dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar economïau gwledig a'r amgylchedd drwy sicrhau

				arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau i ymgeiswyr yn y broses hon o bosibl.
	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Bydd yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad gan ACLl i beidio â chofrestru cais cynllunio gan fod yr ACLl o'r farn nad yw'r cais yn ddilys. Dylai hyn arwain at system decach o gofrestru cais cynllunio, gan esgor ar fanteision cadarnhaol i ddiwydiannau'r tir, economïau gwledig a'r amgylchedd drwy ei gwneud yn bosibl i gyfleoedd datblygu priodol gael eu hystyried drwy'r broses gynllunio.
	Darpariaethau gorfodi - gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon a sicrhau bod y broses orfodi yn fwy eglur. Mae newidiadau yn cynnwys galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiadau rhybuddio ynghylch gorfodi.			Bydd yn helpu i sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio. Fodd bynnag, ni fydd yr effaith yn benodol ar gyrff gwledig a bydd yn esgor ar fuddiannau cadarnhaol o ran rheoli datblygu drwy'r system gynllunio.
	Opsiwn i gyflwyno ceisiadau cysylltiedig i Weinidogion Cymru - Bydd yn cyflwyno darpariaethau i sicrhau y gellir ystyried cynigion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cynllunio hynny am ddatblygiadau y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r prif geisiadau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i llunio'n benodol ar gyfer ceisiadau cynllunio a gaiff eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' arfaethedig.			Bydd caniatáu i'r ceisiadau hynny sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru hefyd gael eu penderfynu ochr yn ochr â'r prif gynnig yn arwain at wasanaeth mwy cynhwysfawr ar gyfer ystyried cynigion datblygu, a fydd o fudd i ymgeiswyr. Mae'n gymwys i bawb, gan gynnwys diwydiannau'r tir ac ati.
10.	**A fydd y polisi'n effeithio ar rai sydd ar gyflogau isel neu mewn cyflogaeth ran-amser neu dymhorol?**		X	
11.	**A fydd y polisi'n targedu pobl sydd o dan anfantais ac yn byw mewn ardaloedd gwledig?**		X	
12.	**A fydd y polisi'n dibynnu ar sefydliadau lleol i'w gyflawni?**	X		
	Paratoi ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru			Ddim yn uniongyrchol ond gallai cyfleoedd datblygu a nodir mewn lleoliadau gwledig gael eu gwireddu gan sefydliadau lleol fel effaith ganlyniadol.
	Dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol at ddibenion llunio cynlluniau datblygu strategol (CDSau) ar gyfer ardaloedd penodol.			Bydd yn ofynnol i draean o'r panel yn achos Paneli Datblygu Strategol fod yn aelodau enwebedig. Bydd yr aelodau hyn yn cynnwys cynrychiolydd o'r ardal leol a dylid cynnwys cynrychiolwyr o ardaloedd y panel cynllunio strategol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd y cynlluniau newydd (Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol) oll yn cyfrannu at lefel nesaf y cynllun ac hefyd yn ystyried CDLlau lleol o ran polisïau a dyraniadau a nodwyd. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae awdurdodau cynllunio lleol yn rhan o'r broses o ddiwygio CDLlau a hefyd roi'r cynlluniau hyn ar waith er mwyn sicrhau bod pob haen o'r cynlluniau datblygu yn cydymffurfio â'i gilydd. Byddai hyn yn gymwys i leoliadau trefol a gwledig fel ei gilydd.

	Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern, ac eithrio ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Ceir pŵer ar wahân, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ehangu'r darpariaethau presennol er mwyn galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.			Pe bai Bwrdd Cydgynllunio yn cael ei gyflwyno o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig, byddai'n dibynnu ar awdurdodau cynllunio lleol i uno swyddogaethau.
	Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio).			Mae'n gymwys i bob sefydliad sy'n cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad sylweddol – ond byddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer ceisiadau cynllunio cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r corff priodol i benderfynu arnynt. Mae'n gymwys i gynigion mewn lleoliadau trefol a gwledig.
	Gwasanaethau cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w ddarparu gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru).			Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu gwasanaeth cyn ymgeisio i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer caniatâd cynllunio lle y gofynnir am hynny. Mae'n gymwys i leoliadau trefol a gwledig.
	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).			Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi adroddiadau effaith leol ar geisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'n gymwys i leoliadau trefol a gwledig.
	Hysbysu am ddechrau datblygiad ac arddangos yr hysbysiad.			Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau lleol sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad hysbysu ACLl o ddyddiad dechrau'r datblygiad ac arddangos yr hysbysiad o ddatblygiad. Mae'n gymwys i leoliadau trefol a gwledig.
	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol hysbysu ymgeiswyr nad yw eu cais wedi'i ddilysu a nodi'r rhesymau dros hynny. Mae'n gymwys i leoliadau trefol a gwledig.
	Dyletswydd i asesu'r effaith debygol ar y Gymraeg, fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, wrth baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.			Mae'n ofynnol i gynlluniau ar bob lefel ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg. Bydd hyn yn arwain at fwy o gyswllt â grwpiau Cymraeg ym mhob ardal, gan gynnwys ardaloedd gwledig.
13.	**A yw'r polisi'n dibynnu ar adeilad neu safle datblygu newydd?**	X (Bydd y cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yn gwella gweithdrefnau o ran ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau ac adeiladau newydd. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau		
	Paratoi ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru			Ddim yn uniongyrchol, ond bydd yn nodi cyfleoedd datblygu.
	Dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol at ddibenion llunio cynlluniau datblygu strategol (CDSau) ar gyfer ardaloedd penodol.			Ddim yn uniongyrchol, ond bydd yn nodi cyfleoedd datblygu.
	Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio).			Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ynghylch pob cynnig newydd ar gyfer datblygiad sylweddol.

	Gwasanaethau Cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w darparu gan ACLl neu Weinidogion Cymru)	gwell hyn yn gymwys yn bennaf i bob ardal ac nid dim ond i'r broses o ystyried adeiladau neu ddatblygiadau mewn lleoliadau gwledig – gweler y sylwadau)		Bydd yn caniatáu i gyngor cyn ymgeisio gael ei roi ar bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd.
	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).			Bydd yn gymwys i gynigion ar gyfer datblygiad newydd sy'n dod o dan weithdrefnau ceisiadau am 'Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Mae'n gymwys i gynigion datblygu mewn lleoliadau trefol a gwledig.
	Dewis i'r ymgeisydd wneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach ag i'r awdurdod cynllunio lleol (os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			Os ceir bod awdurdod cynllunio lleol gwledig yn 'perfformio'n wael', caiff Gweinidogion Cymru weithredu'r dewis hwn a fyddai'n caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau cynllunio i Weinidogion Cymru yn lle hynny. Fodd bynnag, mae'r cynigion hyn yn gymwys i bob ACLl yng Nghymru ac nid dim ond i'r rhai mewn ardaloedd gwledig.
	Ffurf ar hysbysiadau penderfynu a'r modd y'u cyflwynir (gan gynnwys gofyn am i gynlluniau neu ddogfennau eraill mewn perthynas â'r datblygiad gael eu nodi ar yr hysbysiad penderfynu).			Bydd yn gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd sy'n cael caniatâd cynllunio ac sy'n cael penderfyniad hysbysu.
	Hysbysu am ddechrau datblygiad ac arddangos yr hysbysiad.			Bydd yn gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd sy'n cael caniatâd cynllunio.
	Gofyniad ar ymgyngoreion statudol i roi 'ymateb o sylwedd' ar gais am ddatblygiad.			Bydd yn gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd lle bydd yn ofynnol i ymgyngoreion statudol ymateb i geisiadau am ymgynghoriad.
	Atal neu ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus a phriffyrdd.			Darpariaethau technegol ynglŷn â newidiadau ac ychwanegiadau i'r weithdrefn ar gyfer atal neu ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus a phriffyrdd mewn perthynas â chyflwyno cais cynllunio - bydd yn gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd.
	Apeliadau - dim amrywio ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad am apêl			Bydd yn gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd a wrthodwyd ac sy'n mynd drwy'r broses apeliadau cynllunio.
	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol a dosbarthiadau / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu			Bydd yn ei gwneud yn bosibl i gynigion ar gyfer datblygiadau gael eu categoreiddio, gan ganiatáu darpariaethau gwahanol ar gyfer penderfynu ar fathau gwahanol o ddatblygiad.
	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Bydd yn gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd lle nad yw'r cais cynllunio ar gyfer datblygiad wedi'i ddilysu.
	Meysydd Trefi a Phentrefi - Gwahardd ceisiadau rhag cael eu gwneud i gofrestru tir fel maes tref neu bentref lle y rhoddir caniatâd cynllunio, y mabwysiedir gorchymyn datblygu lleol gan yr awdurdod cynllunio lleol neu y gwneir gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Hefyd,			Bydd yn gymwys i ardaloedd lle mae tir wedi mynd drwy'r prosesau cynllunio statudol neu lle mae yn mynd drwy'r prosesau hynny. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn fwy tebygol o fod yn gymwys i ardaloedd trefol yn hytrach nag ardaloedd gwledig.

	darpariaethau sy'n caniatáu i dirfeddianwyr gyflwyno datganiadau i'r awdurdod cofrestru tir comin yn datgan y gellir defnyddio tir at ddibenion hamdden ond bydd hyn wedyn yn golygu y caiff y tir ei eithrio rhag gallu ei gofrestru fel maes tref neu bentref yn y dyfodol, ar yr amod y bodlonir meini prawf penodol. Pwyllgorau Cynllunio, rôl Aelodau a dirprwyo - cyflwyno cynllun cenedlaethol o ddirprwyo i swyddogion benderfynu ar geisiadau cynllunio a rhagnodi'r maint a'r cyfansoddiad y dylai Pwyllgorau ACLlau weithredu yn unol â hwy. Darpariaethau gorfodi - gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon a sicrhau bod y broses orfodi yn fwy eglur. Mae newidiadau yn cynnwys galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiadau rhybuddio ynghylch gorfodi. Opsiwn i gyflwyno ceisiadau cysylltiedig i Weinidogion Cymru - Bydd yn cyflwyno darpariaethau i sicrhau y gellir ystyried cynigion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cynllunio hynny am ddatblygiadau y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r prif geisiadau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i llunio'n benodol ar gyfer ceisiadau cynllunio a gaiff eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' arfaethedig.			 Bydd newidiadau i weithdrefnau pwyllgorau cynllunio yn effeithio ar y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau, ond ni fyddant yn cael effaith uniongyrchol ar adeiladau na datblygiadau mewn lleoliadau gwledig. Bydd yn helpu i sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio o ran cynigion ar gyfer datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn gymwys i bob lleoliad ac nid dim ond i'r rhai gwledig. Bydd yn gymwys i gynigion datblygu newydd a gyflwynir i Weinidogion Cymru lle ceir ceisiadau cysylltiedig sy'n rhan o'r cynigion hyn. Mae'n gymwys i leoliadau trefol a gwledig, fodd bynnag,
14.	**A fydd y polisi'n effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig, naturiol ac adeiledig?** Paratoi ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru Dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol at ddibenion llunio cynlluniau datblygu strategol (CDSau) ar gyfer ardaloedd penodol. Darpariaethau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) (h.y. parhad CDLlau, tynnu CDLl yn ôl a chyfarwyddyd i baratoi CDLlau ar y cyd). Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern. Ceir pŵer ar wahân, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ehangu'r darpariaethau presennol er mwyn galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.	X (Bydd y cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yn gwella gweithdrefnau o ran ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau newydd a fydd yn effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau gwell hyn yn gymwys yn bennaf i gynigion ar gyfer datblygiadau ym mhob ardal ac nid dim ond i'r broses o ystyried datblygiadau mewn lleoliadau		Gall cyfleoedd datblygu gael eu nodi mewn lleoliadau gwledig drwy baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gall cyfleoedd datblygu strategol gael eu nodi mewn lleoliadau gwledig drwy baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Gallai CDLlau ar y cyd lle y cânt eu gorfodi helpu i wella ansawdd a chymeriad tirwedd wledig naturiol neu adeiledig ar gyfer ardal sydd wedi'i dynodi'n un lle maent yn cael eu gweithredu. Yn gryno, bydd pob haen o'r system cynllunio datblygu yn effeithio ar ansawdd y dirwedd wledig a dylent nodi polisïau i warchod a gwella'r dirwedd wledig. Gallai hyn hefyd gynnwys polisi cynllunio cenedlaethol drwy ddiweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru. Effaith gadarnhaol gan y bydd y ddarpariaeth hon yn fodd i sicrhau gwasanaethau cynllunio lleol effeithlon, a ddylai, i ardaloedd gwledig, gefnogi cyfleoedd datblygu priodol yn y lleoliadau gwledig hyn.

	Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio).	gwledig – gweler y sylwadau)		Dylai'r darpariaethau cyn ymgeisio sicrhau y rhoddir sylw i safbwyntiau cymunedau gwledig wrth ystyried cynigion ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle mae cymunedau lleol yn cael dylanwad ar unrhyw gynigion ar gyfer datblygiad sylweddol a fydd yn effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig.
	Gwasanaethau Cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w darparu gan ACLl neu Weinidogion Cymru).			Dylai ffurfioli'r gofyniad bod cyrff penodol yn rhoi cyngor cyn ymgeisio arwain at sefyllfa lle mae ymgeiswyr yn cyflwyno cynigion cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n fwy derbyniol i bawb ac sy'n rhoi sylw i ystyriaethau cynllunio lleol perthnasol. Gallai ystyriaethau o'r fath gynnwys effeithiau ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig, naturiol ac adeiledig.
	Bydd darpariaethau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru (gan gynnwys gofyniad ar ACLl i gyflwyno adroddiad ar effaith leol mewn perthynas â'r cais).			Dylai arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau mwy effeithlon a chadarn yn cael eu gwneud ynglŷn â mathau penodol o gais a fydd yn dod o dan y weithdrefn arfaethedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Felly dylai'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a chymeriad y dirwedd naturiol ac adeiledig o ran cymeradwyo Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol newydd a phriodol mewn lleoliadau gwledig.
	Dewisiadau i ymgeiswyr wneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i'r ACLl (os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			Dylai arwain at wasanaeth cynllunio lleol mwy effeithlon ym mhob ardal. Bydd hyn yn ddamcaniaethol yn arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau cadarn o safon yn cael eu gwneud ar gynigion datblygu; a thrwy hynny'n helpu i gynnal a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig.
	Gofyniad ar ymgyngoreion statudol i roi 'ymateb o sylwedd' ar gais am ddatblygiad.			Dylai'r gofyniad i ymgyngoreion statudol ddarparu 'ymateb o sylwedd' o fewn amserlen benodedig i ymgynghoriad ynghylch cynigion ar gyfer datblygiadau newydd arwain at sefyllfa lle mae cynlluniau datblygu mwy hyddysg yn cael caniatâd cynllunio. O ran ardaloedd gwledig, dylai hyn felly gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig.
	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol a dosbarthiadau / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu.			Dylai'r ddeddfwriaeth gael effaith gadarnhaol ar y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig, drwy ddarparu gweithdrefnau priodol er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer cynigion datblygu a fydd yn helpu i gynnal neu wella'r ardaloedd hyn.
	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Dylai arwain at system decach o gofrestru cais cynllunio. Gallai hyn esgor ar fanteision cadarnhaol o ran ei gwneud yn bosibl ystyried cynigion datblygu a fydd yn gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig.
	Darpariaethau gorfodi - gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon a sicrhau bod y broses orfodi yn fwy eglur. Mae newidiadau yn cynnwys galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiadau rhybuddio ynghylch gorfodi.			Rhagwelir effaith gadarnhaol gan y bydd y darpariaethau gorfodi yn helpu i sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio o ran cynigion ar gyfer datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn gymwys i bob lleoliad ac nid dim ond lleoliadau gwledig.

15.	**A fydd y polisi'n effeithio ar bobl sy'n dymuno cyrraedd a defnyddio cefn gwlad fel lle i hamddena ac i'w fwynhau?**	X (Bydd y cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yn gwella gweithdrefnau o ran ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau newydd a fydd yn effeithio ar ddefnydd twristiaeth yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau gwell hyn yn gymwys yn bennaf i gynigion ar gyfer datblygiadau ym mhob ardal ac nid dim ond i'r broses o ystyried datblygiadau mewn lleoliadau gwledig – gweler y sylwadau)		
	Paratoi ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru			Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol nodi polisïau a dynodiadau twristiaeth cenedlaethol. Gall y rhain fod yn gymwys i ardaloedd gwledig.
	Dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol at ddibenion paratoi cynlluniau datblygu strategol (CDLlau) ar gyfer ardaloedd penodol.			Gallai polisïau a dyraniadau twristiaeth strategol ar gyfer ardaloedd gwledig gael eu cynnwys mewn Cynllun Datblygu Strategol. Er enghraifft, gallai CDS gynnwys darpariaeth hamdden ranbarthol ar gyfer ei ardal os tybir bod ei hangen.
	Darpariaethau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) (h.y. parhad CDLlau, tynnu CDLl yn ôl a chyfarwyddyd i baratoi CDLlau ar y cyd).			Gallai CDLlau ar y cyd lle y cânt eu gorfodi gynnwys polisïau cynllunio gyda'r nod o wella'r agweddau ar ardal cynllunio datblygu dynodedig CDLl ar y cyd sy'n ymwneud â thwristiaeth. Byddai CDLlau ar y cyd yn ymdrin ag agweddau ar hamdden leol yn fanwl.
	Bydd Byrddau Cydgynllunio yn arfer pob swyddogaeth awdurdod cynllunio lleol modern. Ceir pŵer ar wahân, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ehangu'r darpariaethau presennol er mwyn galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.			Effaith gadarnhaol gan y bydd y ddarpariaeth hon yn fodd i sicrhau gwasanaethau cynllunio lleol effeithlon yn lleol, gan gefnogi cyfleoedd datblygu twristiaeth lleol priodol mewn ardaloedd gwledig lle y cânt eu cynnig.
	Ymgynghoriad cyn Ymgeisio (i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio).			Dylai gwasanaethau cyn ymgeisio sicrhau yr ymgynghorir â chymunedau lleol mewn ardaloedd gwledig ynghylch cynigion ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol sy'n cael effeithiau ar hamdden/twristiaeth.
	Gwasanaethau cyn Ymgeisio (Cyngor) (i'w ddarparu gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru).			Gall gwasanaethau cyn ymgeisio arwain at sefyllfa lle mae cyrff o'r fath yn rhoi cyngor ar gynigion datblygu sy'n peri i ddatblygwyr ystyried yn gadarnhaol effeithiau eu cynigion datblygu ar dwristiaeth yn ystod y camau cyn ymgeisio.
	Dewis i'r ymgeisydd wneud cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach ag i'r awdurdod cynllunio lleol (os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi cael ei ddynodi at y diben hwnnw).			Dylai arwain at wasanaeth cynllunio lleol mwy effeithlon ym mhob ardal. Bydd hyn yn ddamcaniaethol yn arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau cadarn o safon yn cael eu gwneud ar gynigion datblygu; a thrwy hynny'n helpu i alluogi cyfleoedd priodol i ddatblygu twristiaeth mewn lleoliadau gwledig.
	Gofyniad ar ymgyngoreion statudol i roi 'ymateb o sylwedd' ar gais am ddatblygiad.			Dylai'r gofyniad bod ymgyngoreion statudol yn rhoi 'ymateb o sylwedd' i ymgynghoriad ynghylch cynigion ar gyfer datblygiadau newydd arwain at sefyllfa lle mae cynlluniau datblygu mwy hyddysg yn cael caniatâd cynllunio. Gallai hyn gynnwys cynlluniau datblygu twristiaeth mewn ardaloedd gwledig.
	Dosbarthiadau o ddatblygiad – caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol a dosbarthiadau / disgrifiadau o ddatblygiad drwy orchymyn datblygu.			Dylai'r ddeddfwriaeth gael effaith gadarnhaol o ran defnyddio'r dirwedd at ddibenion hamdden, drwy ddarparu gweithdrefnau priodol er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer cynigion datblygu a fydd yn helpu i gynnal neu wella'r ardaloedd hyn.

	Apeliadau dilysu – Rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i Weinidogion Cymru lle mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio. Hefyd sicrhau bod ceisiadau awdurdodau cynllunio lleol am wybodaeth i ategu ceisiadau cynllunio yn fwy cymesur.			Dylai arwain at system decach o gofrestru cais cynllunio. Gallai hyn esgor ar effeithiau cadarnhaol o ran ei gwneud yn bosibl ystyried cynigion datblygu a fydd yn arwain at ddatblygiadau twristiaeth priodol mewn lleoliadau gwledig.
	Darpariaethau gorfodi - gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon a sicrhau bod y broses orfodi yn fwy eglur. Mae newidiadau yn cynnwys galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiadau rhybuddio ynghylch gorfodi.			Dylai darpariaethau gorfodi gael effaith gadarnhaol a byddant yn helpu i sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio o ran cynigion ar gyfer datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn gymwys i bob lleoliad ac nid dim ond lleoliadau gwledig.